# Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

**2013 dccc 7**

*Darpariaethau eraill*

**10 Dyletswydd i arfer swyddogaethau i hyrwyddo teithio llesol**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf hon mewn modd sydd wedi ei ddylunio i—

(a) hyrwyddo teithiau teithio llesol, a

(b) sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a'r cyfleusterau cysylltiedig a gwelliannau i'r llwybrau teithio llesol presennol a'r cyfleusterau cysylltiedig.

(2) Rhaid i bob awdurdod lleol roi adroddiad i Weinidogion Cymru yn pennu'r hyn y mae wedi ei wneud ym mhob blwyddyn ariannol wrth gyflawni'r ddyletswydd a osodir arno gan is-adran (1).